

papur



priorddy



**DYRCHAFAF FY LLYGAID I'R MYNYDDOEDD, O'R
LLE Y DAW FY NGHYMORTH. FY NGHYMORTH A
DDAW ODDI WRTH YR ARGLWYDD, YR HWN A
WNAETH NEFOEDD A DAEAR.**

Salm 121

*Dewiswyd gan Margaret Lloyd-Evans, Penymorfa, Llangynnwr
Gweler y tu mewn am ei rheswm dros ei dewis*

**Rhifyn 310
PAPUR EBRILL 2018**

GAIR GAN EIN GWEINIDOG

Cerfio Croesau

MAE saer coed o ynys Lampedusa wedi gwneud croesau pren o ddarnau o bren a gasglwyd o olion cychod a fu'n cario ffoaduriaid ar ffo o ogledd Affrica, ond a suddwyd ar y daith, a hynny'n bennaf oherwydd bod y cyfnod wedi eu gorlwytho â phobl. Mae cannoedd o ffoaduriaid wedi marw'n ddiweddar yn y modd hwn.



Gofynnodd Esgobaeth Milan i'r saer Francisco Tuccio i wneud 150 o groesau ar gyfer oedfa goffa a gynhaliwyd yn ddiweddar.



Yn ogystal ag ymweld yn gyson â'r fynwent o gychod ar y traethau cyfagos, sy'n atgof dirdynnol o'r golled enfawr, mae'r saer hefyd yn crwydro'r traethau adeg llanw uchel ac yn casglu

darnau o bren, yn eu hail-gylchu ac yn rhoi bywyd newydd iddynt mewn siâp croes.

Meddai 'Fel Cristion, mae'r groes yn arwydd o ddioddefaint, ond mae hefyd yn arwydd o ail-eni ac o fywyd newydd. Fel Cristion rwy'n teimlo'r angen i dystiolaethu trwy gyfrwng y croesau hyn. Mae llawer o

Gristnogion ymhlith y ffoaduriaid sy'n cyrraedd Lampedusa. Pan fyddaf yn esbonio iddynt fod y croesau wedi'u gwneud o bren y cychod, a'u bod yn arwydd o ddioddefaint, maent yn gwerthfawogi'n fawr, oherwydd eu bod yn gwybod am y boen maent wedi mynd drwyddi'u hunain.'

Mae heddiw'n Sul y Pasg. Cofiwn am groes arall, a welodd ddioddefaint y tu hwnt i'n dirnadaeth ni. Croes Calfaria. Ond edrychwn ar y groes honno heddiw yng ngoleuni atgyfodiad bore'r trydydd dydd.

Mae'r groes yn gryf, ond mae Crist yn gryfach.

GWEDDIŴN y bydd pawb sy'n teimlo beichiau bywyd yn gwasgu'n drwm arynt y Pasg hwn yn profi nerth y Crist byw.

(Cerfiwyd Haneri Lleuad gan y saer coed hefyd er mwyn coffáu'r Mwslemiaid a fu farw.)

Gweddiŵn

O Dduw,

Galluoga ni, bob un, i ddathlu'r Wyl hon mewn llawenydd,
i fyw yng ngrym ac addewid yr atgyfodiad,
ac o wybod bod Iesu'n fyw,
gwybod y cawn ninnau fyw ynddo ef
yng ngogoniant ei deyrnas dragwyddol yn y nef.
Yn enw Iesu Grist

Amen

Gweddi o 'Ein Tad Moliannwn Di' gan John Lewis Jones



GAIR O WERTHFAWROGIAD

Er bod y traddodiad o ganu cynulleidfaol mewn Cymanfa wedi chwarae rhan fawr ym mywyd Capeli Cymraeg Cymru, rhaid cyfaddef nad tasg hawdd yw denu cynulleidfa i gefnogi'r fath achlysur mewn Capel, Eglwys neu hyd yn oed fan y tu allan i le addoli yn yr oes hon.



Llawenydd mawr felly, oedd gweld cymaint o bobl wedi



ymateb i'r gwahoddiad i ymuno mewn noson a gynhaliwyd yng Nghapel Y Priorddy, Caerfyrddin nos Wener, 23 Mai i recordio deg o emynau ar gyfer dwy raglen yng nghyfres newydd '*Dechrau Canu Dechrau Canmol*', S4C.

Roedd y Capel yn gyfforddus lawn a'r canu'n afieithus o'r nodyn cyntaf hyd at y nodyn olaf. Roedd yr hen benseiri'n gwybod yn iawn beth roeddynt yn ei wneud wrth gynllunio ac adeiladu capeli, gan fod yr adeiladau'n cynnig eu hunain ar gyfer canu cynulleidfaol a'r acwstics yn berffaith.



Meirion Wynn Jones oedd wrth yr organ a Meinir Richards, Pennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin oedd yn arwain y canu a hynny yn ei ffordd hwylus arferol. Hi yw arweinydd Côr Llanddarog a Chôrau

Hŷn Ysgol Bro Myrddin, corau sydd wedi profi cryn lwyddiant ar y llwyfan cenedlaethol. Recordiwyd eitemau gan Gôr Llanddarog a Chôr Merched Hŷn Ysgol Bro Myrddin yn gynt yn y dydd a fydd yn ymddangos ar y ddwy raglen a ffilmiwyd yn Y Priorddy.



Bydd y rhaglen gyntaf ar y thema 'Ffoaduriaid' yn cael ei darlledu ar S4C nos Sul, 3 Mehefin a'r ail raglen ar y thema 'Y Beibl' yn nes ymlaen yn y flwyddyn.



Dymuna Gweinidog y Priodry, Y Parchedig Beti-Wyn James ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i gefnogi'r noson. Bu llawer o ysgrifennu, galwadau ffôn, ebost a defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog pobl i ddod, ond ambell waith, mae'n werth yr ymdrech! Cafwyd noson a fydd yn aros yn y cof am amser hir, ac edrychwn ymlaen at weld y rhaglen ddechrau Mehefin.

Mis	Darlleniad
Sul y Pasg	Marc 16: 1-8
Sul y Pasg Bach	Ioan 20: 19-32
Wythnos 3	Luc 24: 36b-48
Wythnos 4	Ioan 10: 11-18
Wythnos 5	Ioan 15: 1-8

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

PHILIP, JAYNE A LUCY JONES

Clos Cwnin

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

 CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN CYRDDAU CHWARTER 2018 	
Dydd Iau 10 Mai 2018 (4 a 7)	Capel y Graig Tre-lech
Dydd Iau 13 Medi 2018 (4 a 7)	Siloam, Pont-ar-gothi
Dydd Iau 29 Tachwedd 2018 (10.30 a 1.30)	Trinity, Llanboidy

OEDFA GYMUN MIS MAWRTH

Yn ein Hoedfa Gymun ar 4 Mawrth 2018, roedd y rhannau arweiniol yng ngofal grŵp o'n pobl ifainc, sef Mared, Sara, Ffion, Steffan a Lleucu.

Cawsom gyflwyniad priodol a graenus ganddynt i'n hetifeddiaeth fel Cymry, yn enwedig ein traddodiad Cristnogol. Buom hefyd yn cydadrodd salm ac yn cydweddïo.



Roedd hyn yn briodol iawn a ninnau mor agos at Wyl ein Nawddsant, yn enwedig gan fod cymaint o weithgareddau'r dathlu wedi'u gohirio oherwydd y tywydd garw eleni.



Roedd y cyflwyniad yn clymu'n effeithiol â'n cydgymuno - fel y mynegwyd wrth i ni ddiweddu drwy ganu'r geiriau hyn yn emyn **Lewis Valentine** - 'Gweddi dros Gymru':

***er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.***

Mae'n diolch yn fawr i'n Gweinidog am y gwaith paratoi.

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys *Papur Priordy*)

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017

Mae'r Adroddiad wedi'i gyhoeddi. Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi bod wrthi mor ddiwyd yn ei baratoi ar gyfer y Wasg ac yn ei ddosbarthu, yn enwedig Huw LI Edwards, Ysgrifennydd Ariannol, ac Adrian Evans, Y Trysorydd Ariannol.





‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

Boreau Mercher 2, 9, 16, 23 Mai 2018

11.00 tan 12.0

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Arweinwyr

Y Parchedig Peter Cutts a’r Parchedig Beti-Wyn James

Croeso cynnes iawn i bawb

Manylion pellach

☎01267 237696 ☎01267 236658

SEFYDLU’R Y PARCHEDIG EMYR GWYN EVANS

**yn weinidog i lesu Grist yng Ngofalaeth Bröydd Myrddin
(eglwysi Annibynnol Siloam - Pont-ar-gothi, Pant-teg, Horeb, Peniel,
Ebeneser - Abergwili a Bwlch y Corn)**

Gwasanaeth Sefydlu

yng

Nghapel Ebeneser

Prynhawn Sadwrn, 28 Ebrill 2018 am 2

ac

Oedfa Bregethu

yng

Nghapel Peniel

Nos Sadwrn, 28 Ebrill 2018 am 6.30

Bydd te rhwng y ddwy oedfa

Croeso cynnes iawn i bawb



**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?**

www.annibynwyr.org



SUL Y MAMAU YN Y PRIORDY
Gweler yr Adroddiad



DATHLU SUL Y MAMAU

Cafwyd Oedfa Deulu yn y Priordy ar fore Sul y Mamau i ddathlu'r Wyl Gristnogol arbennig hon sy'n digwydd bob blwyddyn ar y pedwerydd Sul yng nghyfnod yr Adfent.

Yn y dyddiau hyn pan fo cymaint o bwys ar fasnacheiddio'r achlysur, braf oedd gweld cymaint o'n mamau ifainc a'u partneriaid a'u plant yn cydnabod



pwysigrwydd dechrau'r Sul hwn gyda theulu'r Eglwys.

Y mamau eu hunan oedd yn cymryd rhan yn yr oedfa a buan iawn y daeth y gweddill ohonom i sylweddoli mor ffodus yr ydym i gael cwmni'r mamau amryddawn hyn o Sul i Sul!

Yn dilyn yr emyn agoriadol, darllenwyd Salm i'r Fam o waith W Rhys Nicholas gan **Fflur Dafydd** a chyflwynodd **Gwennan Schiavone**'r weddi.

Wedi hynny, daeth nifer o famau ymlaen yn eu tro'n cludo darnau o ddefnydd mewn gwahanol liw a'u gosod ar y Bwrdd Cymun ar ôl iddynt esbonio'u harwyddocâd. Roedd gan bob lliw ei neges ac roedd yn crisialu ymdrech ddiiflino mamau i ddatblygu bywyd eu plant ym mhob ffordd, a hynny dan amodau digon anodd ar brydiau.

Roedd defnydd melyn **Mari Grug** yn arwydd o hapusrwydd, defnydd oren **Sioned Snelson** yn arwydd o gynhesrwydd, defnydd llwyd **Llinos Jones** yn arwydd o annibyniaeth a defnydd gwyrd **Heledd Tomos** yn arwydd o feithrin a sefydlogrwydd.

Daeth rhagor hefyd - **Geinor Evans** gyda defnydd porffor sy'n gysylltiedig â'r bywyd ysbrydol, **Carys Morgans** â'i defnydd glas yn cynrychioli nerth, **Rebecca Hayes** â'i defnydd brown yn arwydd o gyfeillgarwch, **Mwynwen Jones** â defnydd gwyn sy'n

ein hatgoffa o lendid a phurdeb. Yna, i gloi, **Llinos Roberts** gyda'i defnydd o liw coch sy'n gysylltiedig â chariad. Mynegodd Llinos ar ddiwedd ei chyflwyniad fel y mae gofyn i ni ddiolch am gariad rhyfeddol Duw atom a hefyd am gariad mamau ar hyd y blynyddoedd.



Crisialodd **Jayne Woods** yr hyn sydd gennym i ddiolch amdano yn ei gweddi. Cofiodd yn arbennig am blant y byd nad ydynt yn gwybod beth yw cariad mam, gan ofyn i Dduw eu

bendithio a'u cynnal.

Bu cwis wedyn rhwng y Plant a'r Oedolion, yn seiliedig ar Sul y Mamau. Bu rhaid i'n Gweinidog, oherwydd y cafflo a fu yn y gorffennol, esbonio'n llym iawn wrth yr oedolion nad oedd hawl ganddynt i gwglo am wybodaeth! Ac efallai'n wir mai dyna pam y daeth yr oedolion yn ail orau yn y gystadleuaeth pan gyhoeddodd Gareth Gravell y marciau terfynol. Er bod ochr ysgafn i'r cwis roedd iddo hefyd ochr addysgiadol wrth i ni ddysgu mwy am Sul y Mamau neu Sul y Fam yn wreiddiol.

Roedd Meinir Lloyd wrth yr organ. Y cyhoeddwr oedd Gareth Gravell a'r casglyddion - Luned, Noa, Gwilym a Mac. Wrth i ni adael y capel derbyniodd y mamau Genhinen Bedr yr un ac roedd losin i bob plentyn.

Diolch am oedfa mor hyfryd ac i'n Gweinidog am yr holl baratoi. Un o'r emynau a ganwyd yn ystod yr oedfa oedd Emyn Sul y Mamau o waith **Rhoswen Llewellyn**. Dyw'r emyn ddim yn *Caneuon Ffydd* ond dyma ddyfyniad ohono sydd, mae'n siŵr, yn crynhoi dyhead pob un ohonom:



**Rho nerth i famau Cymru
I rodio nôl dy Air
Er dwyn bywydau ieuanc
At lwybrau Mab y Saer.**

BORE SUL Y PALMWYDD YN Y PRIORDY

PLESER o'r mwyaf ydy cael y cyfle i ysgrifennu pwt am y gwasanaeth arbennig hwn.



Credaf fod llawer gormod o gyffredinoli'n digwydd y dyddiau hyn wrth i bobl drafod faint o blant a phobl ifanc sy'n mynychu'n capeli. Wrth i mi wrando ar y radio cyn mynd i'r gwasanaeth clywais berson yn dweud: *"dydy plant a phobl ifanc ddim yn mynychu'n capeli y dyddiau yma gan nad oes dim i'w denu yno"* – wel dylai'r person hwn ymweld â'r Priordy er mwyn gweld



bod ein Capel ni'n llawn bwrllwm bob dydd Sul ac yn llawn o blant, pobl ifanc ac oedolion o bob oed yn addoli gyda'i gilydd dan arweiniad ein Gweinidog gweithgar a gofalgarg.

Ymlaen at y gwasanaeth a luniwyd yn gelfydd gan Beti-Wyn a diolch o galon unwaith eto iddi

am hyn a hefyd i'r Band talentog am eu gwaith caled ar ddechrau ac yn ystod y gwasanaeth. Diolch i gyhoeddwyr yr emyn cyntaf sef Jac a Mali ac i Miriam am ddarllen hanes Iesu'n croesawu'r plant i'w freichiau. Roedd y tri yma wedi darllen yn glir ac yn ddeallus.

Hyfryd oedd croesawu teulu a ffrindiau Heledd, Gethin, Myfi a Deio i'r gwasanaeth atom er mwyn i ni i gyd dystio i fedydd Deio bach a wenodd yn siriol ar Beti-Wyn trwy'r adeg. Cyflwynwyd tystysgiff bedydd yn dyner iawn i Deio gan Elliw a chyflwynodd Beti-Wyn anrheg fach i Myfi am fod yn chwaer fawr arbennig o dda. Gwnaeth Beti-Wyn hefyd gyflwyno falŵn cwningen y Pasg i Myfi a gofyn iddi ei osod yn yr ardd ar bwys coeden Cai.

Wedi'r bedydd gwnaed y cyhoeddiadau gan Adrian a chasglodd

Mac, Jac Thomas, Beca a Tomos yn drefnus iawn.

Ymlaen â ni wedyn at Olwen i gyhoeddi'r emyn nesaf a Meg ac Ethan a ddarllenodd Gyflwyniad Sul y Palmwydd - y tri yma unwaith eto'n darllen yn glir ac yn ddeallus.



Wedi'r cyflwyniad dosbarthwyd Croesau Palmwydd i bawb yn urddasol gan Nansi, Trystan, Alys ac Iestyn .

Cafwyd hwyl a sbri yn ystod yr emyn nesaf wrth i'r plant cael cyfle i ymuno yn y cyfeiliant drwy chwarae offer taro yn gerddorol iawn.

Ymlaen â ni wedyn at gyflwyniad Beti-Wyn a oedd, fel bob amser, yn llawn bwrlwm a sbri. Yn y byd addysg y dyddiau hyn rydym yn gredinwyr mawr mewn dysgu drwy chwarae – a dyna yn ei hanfod mae Beti-Wyn yn llwyddo i'w wneud yn arbennig o dda gyda phlant a phobl ifanc ein capel. Mae'n cyflwyno ffeithiau mewn ffordd hwyliog ond yn wahaniaethol er mwyn gwneud y siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn cymryd sylw ac yn cofio'r hyn a drafodwyd. Enghraifft berffaith o hyn oedd trafod symbolau fel Mr Urdd, MacDonalds a Nike ochr yn ochr â symbol y Groes, gan egluro arwyddocâd y symbolau hyn. Tynnwyd ein sylw at y ffaith fod y bobl wedi croesawu Iesu i mewn i Jeriwsalem trwy osod palmwydd ar y ffordd o'i flaen a bod y croesau roeddem wedi'u derbyn wedi'u gwneud o ddail palmwydd.



Daeth Islwyn yr Asyn i'n gweld eleni eto, ac roedd pawb yn hynod o falch i'w groesawu. Ni chollwyd ar y cyfle o ddefnyddio Islwyn i drafod am Iesu ar y Groes drwy dynnu sylw at y ffaith bod siâp croes ar gefn pob asyn wedi dydd croesholio Iesu. Roedd yr asyn wedi cario Iesu i Jeriwsalem a'i wyllo wrth iddo gael ei osod ar y groes, wrth gwrs. Oherwydd ei fod e mor drist am hyn troiodd ei gefn a llosgodd yr haul ffurf y groes arno.



GWASANAETH hyfryd a fydd yn aros yn y cof am amser hir. Diolch o galon i bawb.

Nansi Hayes...

**GWASANAETH Y PASG
CARTREF PLAS-Y-DDERWEN**

AR Fore Gwener, 9 Mawrth, cynhaliwyd y gwasanaeth blynyddol yma yng Nghartre'r Henoed uchod, yng ngofal y Parchedig Beti-Wyn James.

Croesawodd yn dwymgalon drigolion y Cartref,



Ef yma".

I egluro a rhoi darlun o'r wyrth yma 'roedd Beti-Wyn wedi dod â Chenhinen Bedr i'w dangos, sef blodyn sy'n ymddangos mor fregus, ond gyda rhyw gryfder rhyfeddol i fedru gwrthio'i ffordd drwy goncrît i flodeuo, cryfder y Pasg, Iesu wedi goresgyn y bedd a choncro marwolaeth.

Neges y Pasg i ni felly yw bod ein Crist ni yn fuddugoliaethus, a bod yn rhaid i ni edrych y tu hwnt i'r bedd.



Daeth y gwasanaeth i ben drwy gydadrodd Gweddi'r Arglwydd yn y ddwy iaith, a chyda Beti-Wyn yn gofyn bendith ar y trigolion a'r Staff, a diolchodd i Mai am gyfeilio'n ôl yr arfer.



CYDGANWYD emynau oedd yn gweddu i'r gwasanaeth megis "O nefol addfwyn Oen", "When I survey the wondrous cross", gan offren gyda nodyn o fuddugoliaeth yn yr emyn "Molwn Di, Arglwydd Dduw, Haleliwia".

ESTRON

gan

HEFIN ROBINSON

Theatr y Glöwyr, Rhydaman


19 /20 Ebrill – 7.30

Theatr Felin-fach

5 Mai – 7.30

Theatr Ffwrnes, Llanelli

12 Mai – 7.30



Drama newydd amgen ar gyfer y genhedlaeth hon gan un o'n hawduron ifanc mwyaf disglair, ac enillydd Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau, 2016. Llwyfannwyd Estron am y tro cyntaf yn y Cwt Drama, Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, 2017. Dyma gyfle prin i weld gwaith buddugol y Fedal Ddrama ar daith genedlaethol.

CAPEL Y TABERNACL, CAERFYRDDIN

DARLITH

gan

EMYR LLEWELYN

Crefydd Waldo a chi a fi heddiw

Eitem Gerddorol

yng ngofal

Gwyn Nicholas

Nos Wener 20 Ebrill 2018 am 7.30

Mynediad am Ddim

Casgliad at Gymorth Cristnogol

Croeso cynnes a chwpanaid o de i bawb

Dan nawdd Gweithgor Bedyddwyr Gorllewin Myrddin



CASGLIAD AT Y COLEG

Codwyd £80 yn y casgliad rhydd at Goleg yr Annibynwyr Cymraeg ar Ddydd Sul 18 Mawrth 2018. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Adrian Evans, ein Trysorydd, am gadw'r cyfrifon.



CYNNIG GAN GYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN I GYFARFODYDD BLYNYDDOL UNDEB YR ANNIBYNWYR YN ABERAERON YM MIS MEHEFIN 2018

Ym mis Chwefror 2018 cyflwynwyd deiseb i Lywodraeth Cymru, wedi ei llofnodi gan dros 5,000 o bobl, yn galw arnynt i newid y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn dysgu hanes Cymru o bersbectif Cymreig yn ein hysgolion cynradd, uwchradd a'r chweched dosbarth. Cytunwn â hyn, gan fod dyfodol ein cenedl yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ddeall, gwerthuso a dehongli ein gorffennol – y bobl a'r digwyddiadau sydd wedi llunio Cymru heddiw.

PENDERFYNIAID

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg o'r farn bod angen i bobl Cymru ddysgu mwy am hanes ein gwlad a chyfraniad ein pobl yn rhyngwladol. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hanes mewn ysgolion a cholegau yn cael ei ddysgu o safbwynt Cymreig. Yn benodol:

- Hanes lleol sy'n tystio i gyfnodau ac i newidiadau ar hyd y canrifoedd
 - Hanes datblygiad ein cenedl, gan gynnwys effaith y dylanwadau allanol
- Dylanwad a chyfraniad llesol ac andwyol Cymru a Chymry at hanes rhyngwladol

Rydym hefyd am weld mwy o sylw yn cael ei roi i'r datblygiadau a'r digwyddiadau crefyddol sydd wedi cyfrannu gymaint tuag at greu cymeriad ein cenedl.

Wrth i Lywodraeth Cymru drosi gweledigaeth Adroddiad Donaldson (Dyfodol Llwyddiannus, 2015) yn realiti, rhaid sicrhau bod ei gyfeiriadau brith at 'Ddimensiwn Cymreig' yn cael eu gwreiddio yn y maes llafur hanes. Bydd hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru, yn ogystal â'r byd

CECIL FRANCES ALEXANDER
(1818- 1895)

MAE sawl cynulleidfa, dros y blynyddoedd, mae'n siŵr, wedi hen arfer â chanu'r emyn *There is a greenhill far away* yn Saesneg neu *Draw draw ymhell mae gwyrddlas fryn* yn Gymraeg yn ystod cyfnod y Pasg ac mewn oedfa Gymun.



Cyfansoddwyd yr emyn Saesneg gwreiddiol gan Cecil Frances Alexander, a aned yn Ebrill 1818, union ddeucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn, yn Nulyn, Iwerddon. Dyw union ddiwrnod ei geni ddim wedi'i gofnodi.

Amlygodd ddawn i gyfansoddi'n ifanc iawn. Roedd yn Gristion o argyhoeddiad a ddaeth dan ddylanwad Mudiad Rhydychen a bwysleisiai agweddau

Catholigaidd Anglicaniaeth. Yn 1850, priododd William Alexander (1824-1911) a ddaeth yn Esgob Derry a Raphoe.

Yn ystod ei bywyd roedd hi'n adnabyddus am ei gwaith dros y tlawd a'r gwael a'r rhai dan anfantais meddyliol a sefydlodd ysgol gyda'i chwaer ar gyfer y byddar.

Cyfansoddodd tua 200 o emynau a thua 200 o gerddi eraill, a chyhoeddodd nifer o gyfrolau rhwng 1846 ac 1859. Bu farw 12 Hydref 1895 a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Derry yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r emyn *There is a greenhill far away* yn emyn clasurol ar gyfer yr hen a'r ifanc, er iddo gael ei gyfansoddi'n wreiddiol ar gyfer plant. Mae'n darlunio geiriau'r Credo, yn enwedig y geiriau '*a ddioddefodd dan Pontius Pilatus, a groeshoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd.*' Mae'n debyg mai Knockavoe Hill, sef darn o dir y tu allan i Derry a'i symbylodd i ysgrifennu am y *greenhill*. Ond, fel sy'n hysbys, doedd dim yn wyrddlas ynghylch Golgotha – lle'r penglog! Yn ôl yr hanes, lluniwyd yr emyn ar erchwyn gwely plentyn sâl.

Mae'r emyn i'w weld yng nghyrol enwocaf Cecil Francis Alexander, sef *Hymns for Little Children*. Emynau eraill sydd yn yr un gyfrol yw *All things bright and beautiful* a *Once in Royal David's City* a *Creator of heaven and earth*.

Yn 1913, ar ôl marwolaeth ei gŵr yn 1911, gosodwyd ffenestr liw er cof amdani yng Nghadeirlan St Columb's. Mae'r ffenestr yn darlunio tri o'i hemynau, sef "Once in Royal David's City", "There is a green hill far away", a "The Golden Gates Are Lifted Up" – y cyfan ohonynt yn y gyfrol *Hymns for Little Children*.



Cyfieithwyd *Draw draw ymhell mae gwyrddlas fryn* (CFf:



490) i'r Gymraeg gan Elfed (1860-1953). Mae *Cydymaith i Ganeuon Ffydd* yn dyfynnu sylwadau'r Athro Branwen Jarvis am waith Elfed: 'Fe welir pa mor agos y glynodd Elfed at y gwreiddiol. Eithr nid cyfieithiad prenaidd sydd ganddo o gwbl, ond emyn Cymraeg llyfn ei rediad a hyfryd i'r glust.'

I DDIWEDDU, dyma ddyfynnu pennill cyntaf yr emyn, yn Saesneg gan Alexander ac yn Gymraeg gan Elfed:

There is a greenhill far away, without a city wall, where the dear Lord was crucified who died to save us all.	
	Draw draw ymhell mae gwyrddlas fryn tu faes i fur y dref lle'r hoeliwyd Iesu annwyl gynt o'i fodd i'n dwyn i'r nef

DIGRIFWR A GŴR O FFYDD

Bu ambell ddeigryn a gwên mewn sawl man pan glywyd am golli'r digrifwr annwyl Syr Ken Dodd ar Sul y Fam yn ei gartref yn Knotty Ash, Lerpwl.



Byddai Ken yn addoli'n gyson yng Nghadeirlan Lerpwl ac yn eglwys ei blwyf, Sant Ioan, Knotty Ash, ble canai yn y côr pan oedd yn blentyn. Roedd y ficer, y Parchedig Julia Jesson, yn gyfaill agos iddo a threfnodd i'r Cofrestrwydd fynd i'w gartref i gynnal ei briodas ag Anne, ei bartner hirdymor ac organydd yn Eglwys Sant Ioan, ddeuddydd cyn iddo farw.



Un a gofiai Ken yn dda oedd Archesgob Caergaint, Justin Welby. Byddai Ken yn mynychu Cadeirlan Lerpwl yn ffyddlon pan oedd Justin Welby yn Ddeon yno rhwng 2007 a 2011. Roedd bob amser yn gyfeillgar, doeth a doniol.

Dywedodd Esgob Lerpwl, y Parchedig Paul Bayes, ei fod yn ddyn o ffydd ddofn a fyddai'n hoffi addoli'n dawel yn y Gadeirlan.

Roedd cymuned Knotty Ash yn bwysig iawn i Ken a chynhaliodd plant ei hen ysgol gynradd wasanaeth arbennig o ddiolch amdano. Dywedodd y pennaeth Roanne Clements-Bedson fod ei ymroddiad i'r ysgol yn golygu llawer i'r plant.




Diolch i Ken am ddod â chymaint o fwynhad i gynifer o bobl.

**GRŴP AGOR Y LLYFR Y PRIORDY
YN YSGOL Y DDERWEN**



Tudalen Ieuenctid@Priordy

CHWILAIR Y PASG



P	Y	C	L	M	C	J	B	O	N	D	T
R	A	W	T	B	C	T	S	Y	D	B	R
A	L	S	R	B	R	F	D	A	W	H	Y
T	D	Y	G	R	O	G	L	I	TH	FF	D
G	RH	A	O	W	E	B	N	I	F	N	Y
Y	H	O	L	I	S	M	R	U	Y	L	DD
F	TH	R	G	B	E	DD	G	W	A	G	D
O	S	U	O	RH	C	Y	E	P	B	I	Y
D	D	A	TH	W	G	W	R	A	G	E	DD
I	S	F	A	C	PH	FF	R	G	H	S	Y
A	DD	H	O	E	L	I	O	N	P	U	T
D	M	C	O	R	O	N	DD	R	A	I	N

Fedrwch chi ddod o hyd i'r geiriau hyn yn Chwilair Y Pasg?

PASG	BEDD GWAG	IESU
	CORON DDRAIN	HOELION
CROES	TRYDYDD DYDD	Y GROGLITH
ATGYFODIAD	GWRAGEDD	BYW

Dyddiadau'r mis:

Ebrill 1 - Sul y Pasg


Ebrill 8 - Dim Ysgol Sul

Ebrill 15 - Ysgol Sul a PIP

Ebrill 22 - Cwrdd yr Ifanc


Ebrill 29 - Ysgol Sul

Mai 3 - Ysgol Sul



*Hwyl am y tro,
Beti-Wyn*

**CANU GOSBEL GARTH HEWITT GYDA
CHÔR SEINGAR YN Y PRIORDY**




D EIRWYN MORGAN

1918 -1982

Tybed faint o gynulleidfaoedd yng Nghymru fu'n canu'r emyn *Anwylaf Grist, dy sanctaidd ben* (CFf 485) dros gyfnod y Pasg?

Mae'n drosiad o'r emyn Saesneg '*O dearest Lord, thy sacred head*' gan y Tad Andrew (Henry Ernest Hardy: 1869-1946), offeiriad Anglicanaidd a aned yn India ac a sefydlodd y *Society of Divine Passion* i weithio gyda'r tlawd yn Nwyrain Llundain. Mae'n debyg i'r Tad Andrew lunio'r emyn ganrif yn ôl ym 1918. Mae'n emyn am groeshoelio Crist.



Troswyd yr emyn i'r Gymraeg gan David Eirwyn Morgan, gŵr a aned i deulu glofaol ar 23 Ebrill 1918, sef can mlynedd yn ôl i'r mis hwn, ym Mhen-y-groes, Sir Gâr. Roedd y teulu'n addoli yn Saron, Capel y Bedyddwyr Cymraeg yn Llandybïe.



Cafodd Eirwyn Morgan ei addysgu yn Ysgol Pen-y-groes ac Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman. Yn Nyffryn Aman daeth i adnabod y gofalydd, D R Griffiths (Amanwy) yn dda – un a ysgogodd ei ddiddordeb mewn llenyddiaeth. Graddiodd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yn Abertawe ac mewn diwinyddiaeth yn y Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin ac eto yng Ngholeg y Bedyddwyr, Regent's Park, Rhydychen.

Bu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Eglwys Pisga, Banffosfelen a Thabernacl a Horeb, Llandudno. Tra

oedd yn Llandudno, cafodd gyfle i astudio am flwyddyn yn yr Unol Daleithiau ond bu rhaid iddo ddychwelyd yn gynnar oherwydd afiechyd.

Bu wedyn yn diwtor Athroniaeth Crefydd a Diwinyddiaeth Fugeiliol yng Ngholeg y Bedyddwyr a Choleg y Brifysgol Bangor cyn cael ei benodi'n Brifathro Coleg y Bedyddwyr. Ymddeolodd yn gynnar yn 1980 oherwydd afiechyd.

Gwasanaethodd ei enwad yn ffyddlon ac yn amlochrog. Roedd yn heddychwr mawr. Roedd hefyd yn gefnogydd i weithgarwch a thrafodaethau eciwmenaidd.

Fe oedd un o syflaenwyr *Cymdeithas Emynau Cymru* a hefyd yr ysgrifennydd cyntaf. Sefydlwyd y Gymdeithas ym 1967 yn ystod Eisteddfod Genedlaethol y Bala. Gwasanaethodd ei enwad yn ffyddlon ac yn amlochrog.



Yn genedlaetholwr brwd, bu'n olygydd *Y Ddraig Goch*, papur Cymraeg Plaid Cymru, a bu'n ymgeisydd y Blaid yn etholaeth Llanelli mewn Etholiadau Cyffredinol ar bedwar achlysur. Mae hanesyn diddorol gan D Ben Rees yn *Cofiant Jim Griffiths* am un o'r etholiadau hynny ym 1955 pan gyflwynodd Eirwyn Morgan ei bapur enwebu gyda thri gair Cymraeg arno. Disgrifiodd ei hun yn ddwyieithog fel '*Gweinidog yr Efengyl / Minister of the Gospel*' ond doedd hyn ddim wrth fodd yr awdurdodau. Meddai Ben Rees:

Bu rhaid i Eirwyn Morgan ail-lunio'r ffurflen yn uniaith Saesneg cyn cael ei dderbyn fel ymgeisydd seneddol yn yr etholiad. Dyna brofi, os oedd angen hynny, mai israddol oedd statws y Gymraeg, ond bu protest Eirwyn Morgan a chefnogaeth Jim Griffiths iddi yn fodd i'r papurau ddod yn ddwyieithog wedi hynny

Bu Eirwyn Morgan yn olygydd *Seren Cymru* – wythnosolyn y Bedyddwyr a chyhoeddodd nifer o lyfrau, gan gynnwys *William Carey (1761-1834)*, sef hanes cenhadwr cyntaf Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Roedd yn un o olygyddion *Mawl i'r Ifanc* cyfrol sydd hefyd yn cynnwys tri ar ddeg o gyfieithiadau ganddo.

Mae tri chyfieithiad o'i eiddo yn *Caneuon Ffydd*, sef *Crist sydd yn Frenin, llawenhawn* (CFf 351), *Arglwydd pob gobaith ac Arglwydd pob hoen* (CFf 394) ac *Anwylaf Grist, dy sanctaidd ben*.

Bu farw ar 30 Awst 1982. Gadawodd briod a dau blentyn

I gloi, dyma ddyfynnu pennill cyntaf emyn y Tad Andrew a throsiad D Eirwyn Morgan:

O dearest Lord, thy sacred head With thorns was pierced for me; O pour thy blessing on my head That I may think for thee.	
	Anwylaf Grist, dy sanctaidd ben dan ddrain fu drosod fi; dy fendith tywallt ar fy mhen im feddwl drosot ti.

GWYL GRISTNOGOL LLANW

2-5 Ebrill 2018



Canolfan y Dywysoges Gwenllïan, Cydweli

Yr Ŵyl yn ymweld â Sir Gâr am y tro cyntaf yn ei hanes. Wythnos lawn l bawb o bob oed gyda threfniadau arbennig i blant.

Gwybodaeth bellach - Nigel Davies

Swyddog Plant ac Ieuenctid MIC

☎01994 230049 e-bost: mic@uwclub.net

DYMUNIADAU DA

Mae'r Parchedig Emyr Lyn Evans, Heol Bronwydd, Caerfyrddin yn ymddeol ar ôl cyfnod o 54 o flynyddoedd yn Weinidog i Iesu Grist. Wrth ddiolch iddo am ei wasanaeth dros gyfnod mor faith, dymunwn yn dda iddo yntau a'i briod Susan a'r teulu i gyd i'r dyfodol.



Y TYST

50c y rhifyn!

Cysyllter â Sulwyn Thomas

TUDALEN BLAEN

Rheswm Margaret Lloyd-Jones am ei dewis...

Dyrchafaf fy llygaid...

Dyma un o'r Salmau a ddysgais ar y cof pan oeddwn yn ferch ifanc yng Nghapel Y Tabernacl, Pont-iets.



Byddai'r plant yn cymryd rhan bob blwyddyn mewn arholiad Ysgol Sabathol Henaduriaeth De Caerfyrddin, pan fyddai gweinidog o gapel arall yn dod i roi prawf ar lafar i ni a phob un ohonom mor nerfus.

Mawr oedd y disgwyl am y gwasanaeth pan fyddem yn derbyn ein tystysgrifau oddi wrth ein gweinidog, Y Parchedig Gwyn Davies Jones, a phob un ohonom wedyn yn cymharu'n marciau!



Bellach, yn anffodus, caeodd y capel ym mis Medi y llynedd ar ôl bod ar agor er 1908.

Roedd y gynulleidfa wedi lleihau bob blwyddyn oherwydd bod pobl yn symud i ffwrdd a chafodd y capel ei werthu'n ddiweddar iawn.

Diwedd Cyfnod.

**BETH AM DROI AT WEFAN
COLEG YR ANNIBYNWYR CYMRAEG?
colegyrannibynwyr.cymru**





CWIS MIS MAWRTH 'NABOD EICH EMYNAU!

Atebion



1	C	O	F	I	W	N				
2	E	N	N	Y	N	A	I	S	T	
3	N	O	DD	F	A					
4	H	A	P	U	S					
5	I	A	CH	A	W	D	W	R		
6	N	E	W	I	D					
7	E	N	A	I	D					
8	N	E	S	A	W	N				



MIC –DYDDIADAU I'W NODI



Clwb Gwyliau'r Pasg	Neuadd Llanarthne	9-11 Ebrill (10.30-12.30)
Bwrlwm Bro	Caerfyrddin <i>Lleoliad i'w gadarnhau</i>	20 Mai
Mabolgampau dan do	Gorllewin y Sir	19 Mehefin
Mabolgampau dan do	Rowndiau Terfynol y Sir	11 Gorffennaf
Sul Sbsial	Ysgol Bro Dinefwr	8 Gorffennaf (10.30)
Cwrs Ieuenctid	Coleg y Bala	30 Gorffennaf – 3 Awst
Souled Out	Coleg y Bala	18-23 Awst

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 20 Mehefin 2018 am 7 yn y Ffestri.

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

DYDD IAU 26 EBRILL 2018

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



Carys Morgans, Swyddog

Cyswllt y Gefeillio

yn cyflwyno...

NEWYDDION O SALEM, CAERNARFON



SBRI BACH

Mae **Sbri Bach Salem** yn mynd o nerth i nerth. Mae'r Sbri yn cyfarfod bob prynhawn Gwener 1- 2:30 ac ar ail Sadwrn y mis 10:30 - 12:00. Mae Sbri Dydd Gwener ar gyfer babanod a phlant hyd at 3 oed a'r Sbri Sadwrn i blant hyd at 5oed. Mae'n wych gweld y festri'n fwrlwm o blant a sgwrsio rhieni.



PEN-BLWYDD ARBENNIG

Cafodd Mr T. Elwyn Griffiths ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ar y 10ef o Fawrth Bu'n sgwrsio â Dylan Jones ar raglen *Post Cyntaf BBC*



Radio Cymru ac ar

Raglen Dewi Llwyd fore Sul. Bu'n Eisteddfodwr i'r carn, yn sylfaenydd ac yn drefnydd Cymru a'r Wasgar ac Undeb Cymru a'r Byd yn ddiweddarach ac yn gyfrifol am gylchgrawn 'Yr Enfys'. Ar ddechrau ei sgwrs gyda Dewi Llwyd dywedodd fod dau beth yn bwysig iddo:

crefydd, gan gynnwys Caniadaeth y Cysegr, a rygbi. Medrwyh glywed y sgwrs yn llawn ar *Gwranddo Eto, Radio Cymru*.

DIOLCH YN FAWR

Ar 1 Mawrth daeth cyfnod Mrs Edwina Parry yn ofalwraig capel Salem i ben. Ar y diwrnod hwnnw, roedd Edwina a'i phriod Richard (rhieni'r Parchedig Dylan Rhys) wedi bod yn y Tŷ Capel am gyfnod o 22 mlynedd a 5 mis yn union. Yn sicr, doedd ffarwelio ddim yn hawdd. Dymunwn y gorau iddynt yn eu cartref newydd yn 6 Cae Corn Hir, Yr Hendre.

Oddi wrth....

Y Parchedig Ddr Desmond Davies

Annwyl Ffrindiau

Drwy garedigrwydd y brawd Alun Charles byddaf yn derbyn copi o Bapur Priordy yn rheolaidd, ac yn cael blas ar ei ddarllen.

Mae'n glod i chi fel eglwys eich bod mewn sefyllfa i gyhoeddi cylchgrawn mor safonol ac y mae'n diolch yn ddyledus i Alun a Tina a gweddill y tîm cynhyrchu am y modd y mae'n cael ei argraffu.



Ar glawr rhifyn 309 dyma ddarllen un o adnodau mwyaf cyfarwydd y Testament Newydd, sef Efengyl Ioan 3:16, a rhesymau'r chwaer Luned Thomas am ei dewis. Tipyn o syndod wedyn oedd gweld llun ohonof fy hun ar dudalen 44, a'r cyfeiriad at y dosbarth safon A mewn



Astudiaethau Crefyddol yn Ysgol Bro Myrddin yr oedd Luned yn aelod ohono 'nôl yn yr wythdegau. Carwn ei sicrhau nad hithau na neb arall yn y dosbarth sy'n gyfrifol bod fy ngwallt wedi britho ryw ychydig erbyn hyn! Cofier ei fod yn ei le o hyd! I'r gwrthwyneb, yr oedd Luned (Voyle fel yr oedd bryd hynny) yn ddisgybl galluog a chwbl ymroddgar yr oedd yn bleser o'r mwyaf i'w dysgu. Sicrhaodd iddi ei hun y radd uchaf yn y pwnc, ac fel y gwyddom

erbyn hyn y mae'n dilyn gyrfa lwyddiannus fel cyfreithrwaig yn nhref Caerfyrddin, rhywbeth 'rwy'n falch iawn ohono, mae'n rhaid imi gyfaddef.

Priodol iawn ar adeg y Grawys, y Groglith a'r Pasg oedd dewis Luned o'r adnod yn Efengyl Ioan, a hynny yn y cyfieithiad traddodiadol. Gwylwn rhag ofn i ni anghofio camp William Morgan! Rwyf hefyd yn hoff o fersiwn y Beibl Cymraeg Newydd: '*Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab...*'. Mae'r '*Do*' cadarnhaol yn sicr yn ennill ei le. Fel Cristionogion fe'n hargyhoeddwyd mai cariad Duw yn Iesu Grist yw'r unig allu a all achub ein byd, ac yr ydym yn gweddio'n barhaus, yn wyneb y ras arfau a'r holl drais dinistriol sydd yn ein byd ni heddiw, '*Arglwydd, yn dy ras, tro ni o gariad at rym at rym cariad*'

Symbl, ond gwir a thra pherthnasol yw emyn Ben Davies, Pant-teg (Caneuon Ffydd 387):

Cariad Iesu Grist,
cariad Duw yw ef;
cariad mwya'r byd,
cariad mwya'r nef.

Gobaith plant pob oes
gobaith dynol-ryw,
gobaith daer a nef
ydyw cariad Duw

Gyda diolch i Luned am ddod ag
atgofion hapus iawn yn ôl imi o'r
cyfnod y bŵm yn athro yn Ysgol Bro
Myrddin, a chan ddymuno dyfodol
llewyrchus i Bapur Priordy.



Cofion gorau

Desmond Davies



BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL

Dydd Sadwrn 7 Ebrill 2018 - 10 tan 12

Capel y Bedyddwyr Saesneg

OEDFA HAF CARTREF PLAS-Y-DDERWEN

gyda'n

GWEINIDOG

Bore Gwener, 22 Mehefin 2018 am 11 o'r gloch



AR GAEL YN Y CYNTEDD

GYDA'N GILYDD

*Cylchlythyr Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin
Gaeaf 2018*

Beth am droi at cyfundeb.com?

Gwefan Cyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin





1	<i>Sawl diwrnod dreuliodd yr Iesu'n ymptydio'n yr anialwch?</i>	
2	<i>Ar Sul y Blodau mi ddaeth yr Iesu i Jerwsalem ar gefn _____</i>	
3	<i>Pwy orchmynnodd y dylid croeshoelio'r Iesu?</i>	
4	<i>Pwy oedd y dyrfa am ei weld yn cael ei ryddhau?</i>	
5	<i>Pa ddisgybl wadodd yr Iesu dair gwaith?</i>	
6	<i>Pa un gafodd ei groeshoelio gyda'r Iesu?</i>	
7	<i>Yn y ffilm The Greatest Story Ever Told pwy ddywedodd: "Truely, this man was the son of God"?</i>	
8	<i>Pwy oedd y cyntaf/gyntaf yn y bedd fore Sul?</i>	
9	<i>Pa ddisgybl oedd yn gwadu i'r Iesu atgyfodi?</i>	
10	<i>Wedi iddo atgyfodi, mi fu i'r Iesu gyfarfod dau o'i ddilynwyr ar y ffordd i _____</i>	

Daw o wefan BBC Cymru Fytw. Atebion y tro nesaf

DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL YN Y PRIORDY



GŴYL DEWI'R PRIORDY

AR nos Lun 5 Mawrth, ar noson ddigon diflas gyda'r glaw a'r gwynt yn ysgwyd y ffenestri ac yn curo ar y drws, gwresog iawn fodd bynnag oedd dathliad blynyddol Gŵyl ein Nawddsant yn Festri'r Capel. Er gwaetha'r tywydd, daeth yna gwmni niferus ynghyd i rannu yn y mwynhad a'r digrifwch ac, wrth gwrs, i brofi'r fwydlen draddodiadol o gawl a phice ar y maen.



Mae noson Gŵyl Dewi'r Priordy'n noson sy'n llawn hwyl a diddanwch ac eleni eto yr un oedd y mwynhad a gawson ni yng nghwmni'n gilydd. Cafwyd adloniant arbennig eto gyda Meinir a Peter Hughes Griffiths, cwpl talentog dros ben a deuawd sy'n gallu diddanu cynulleidfaoedd o bob math a nifer. Cwis a luniwyd gan Peter a gawsom yn gyntaf a digon heriol oedd y cwestiynau hefyd. Gyda Meinir ar y piano llwyddwyd i dynnu môr o ganu o'r gynulleidfa ac yna gân unigol gan Peter i anrhydeddu, os mai dyna'r gair cywir, y diaconiaid ac yn llwyddo i enwi pob un ohonynt yn eu tro – a'r cyfan yn gampwaith o ddoniolwch a ffraethineb direidus.

Yna daeth tro Tudur Dylan i'n hannerch ac wrth iddo baratoi'r cyfrifiadur a'r sgrîn fawr gyda wyneb seriws braidd, dechreuwyd teimlo mai efallai darlith ar farddoniaeth y gogynfeirdd neu elfennau cynganeddion y ganrif ddiwethaf oedd ganddo ar ein cyfer. Fodd bynnag, wrth iddo ddechrau traethu fe ddaeth yn amlwg mai testun ysgafn iawn oedd ganddo dan sylw– sef hanes Annibynwyr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd heddiw. Ysgafn! fe'ch clywaf yn protestio. Wel yn wir mi roedd. Hanes o'r fath na chlywyd mohono o'r blaen! Gan gyfeirio at erthyglau mewn hen bapurau newyddion cafwyd gwledd yn wir o gomedi a'r Festri gyfan yn hollti'u hochrau wrth glywed y gwych a'r gwachul am rai o orchestion rhai amlycaf yr enwad. Gwell peidio dweud rhagor!!



Cafwyd gryn hwyl hefyd wrth geisio adnabod y lluniau o'n haelodau a baratowyd gan Beti-Wyn. Ac ar ben hyn oll, cadeiriwyd y bardd buddugol yng nghystadleuaeth y limrig – gyda'n Gweinidog Beti-Wyn yn cipio'r wobr gyntaf – gwych!

Noson arbennig oedd hi unwaith yn rhagor a gyda chymorth y dynion yn gweini, clirio a golchi, aeth y noson yn ei blaen yn esmwyth ac yn gysurus iawn.

ON'D ydyn mor ffodus i gael y fath dalent mewn un Capel?!

POBL Y PRIORDY
Canwyd ar yr alaw 'Mari Fach'
Noson Gawl Dathlu Gŵyl Ddewi 2018.

**Croeso cynnes ichi - Bobol bach, Bobol bach,
Yma i'r Priordy - Bobol bach.
Y dynion fu'n ein bwydo
A'r cawl sy wedi'n twymo
A'r pice man i'w conio – Bobol bach, Bobol bach
Dathlu'n Gŵyl 'ma heno - Bobol bach!**

**A bellach pwy sy'n flaenllaw – Yn ein plith, yn ein plith,
Yma'n nwy fil a deunaw – Yn ein plith?
Pobol Y Priordy'n
Gymdeithas gyda'n gili
Yn cynnal ac yn trefnu – Yn ein plith, yn ein plith
Fe wna i ateb hynny – yn ein plith.**

**Wi'n dechre gyda'n cyfaill – Sulwyn hoff, Sulwyn hoff,
Cyn mynd ymlaen at eraill – Sulwyn hoff.
Bu yma yn addoli
Trwy'i fywyd 'n y Priordy,
Diddiwedd yn cyflawni – Sulwyn hoff, Sulwyn hoff
Ry ni'n dy werthfawrogi - Sulwyn hoff.**

**Os cadarn o gorffolaeth – Alun Charles, Alun Charles,
Mae'n deilwng o'n canmoliaeth – Alun Charles.
Yr Ysgrifennydd siriol,
Golygydd Papur misol,
A'i acen braf ogleddol - Alun Charles, Alun Charles
A nofiwr cryf wythnosol – Alun Charles.**

**Ers iddo gael ei eni – David Lloyd, David Lloyd
Bu'n sefyll yn y lobi – David Lloyd.**

Yn ffyddlon iawn i'r achos,
Cymeriad annwyl agos,
Fel hynny mae'n ymddangos – David Lloyd, David Lloyd,
Y cyfaill hirymaros – David Lloyd.

A beth am y ceinioge – Adrian Adrian
A chasglu miwn pob dime – Adrian,
Mae'n cadw'r cownts yn llawen,
Mae'n ganwr fel mwyalchen,
Mae'n garafanwr amgen – Adrian Adrian,
Y Cardi llon ei awen – Adrian.

A wedyn Tim a Gwynfor – Diacon, Diacon.
Eirlys, Wyn a'i hiwmor – Diacon.
Chris a Catrin Heledd
Philip a'i siwts o sylwedd,
Gareth a'i ddiwylliedd - Diacon
A Rhian a'i brwdfrydedd – Diacon

Wedyn 'rorganyddion – La la la, La la la,
Yn chware'r holl alawon – La la la,
Janet, Meinir, Rhian,
A'u cordiau ar yr organ,
Eira, Heather, Iwan – La la la, La la la,
Eu tebyg does na'm unman – La la la.

Ond mae na un fach eto – Beti-Wyn, Beti-Wyn,
Na allwn ei anghofio – Beti-Wyn.
Ein diolch didwyll iti
Am ddangos yr holl asbri
A'r ddawn i'n hysbrydoli – Beti-Wyn, Beti-Wyn
Mae'n gyfle i'th glodfori – Beti Wyn.

Ie, hwn yw'r pennill dwetha – Bobol bach, Bobol bach,
Am nawr – tan flwyddyn nesa' - Bobol bach,
Cymdeithas Y Priordy
Sy'n dathlu Nawdd Sant Cymru
Diolchwn am eich cwmni – Bobol bach, Bobol bach
Yn llawen gyda'n gily' - Bobol Bach.

Peter Hughes Griffiths





DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Ebrill		Mai	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Alun Charles	Wyn Evans	Sulwyn Thomas	



BLODAU



Ebrill	1	Glenys Thomas	Mai	6	
	8			13	Olive Lloyd
	15	Enid Evans		20	
	22			27	Mair Baston
	29	Jayne Jones			



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Ebrill	1	Bore	Catrin Heledd a Jayne Jones
Mai	6	Bore	Margaret Lloyd-Evans ac Eirlys Davies



YMWELWYR



Mawrth / Ebrill	Rhian Evans ac Eirlys Jones, Henry a Bronwen Wilkins
Mai / Mehefin	Glenys Thomas, Eira Phillips ac Eira Jenkins



DARLLENWYR



Ebrill	1	Miriam Wyrwoll	Mai	6	Dr Myfanwy Jones
	8	Chris Lloyd		13	Tim Hayes
	15	Peter Hughes Griffiths		20	
	22			27	Alison Parsons
	29	Dr Llinos Williams			



CYHOEDDWYR



Ebrill	Gareth Gravell	Mai	Wyn Evans
--------	----------------	-----	-----------

Y DIWEDDAR JOHN MADDUX

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth y diweddar John Maddox, a fu farw yn dawel yn ei gartref yn Hafan Tywi ar 19 Mawrth 2018 wedi cystudd blin a ddioddefodd yn ddewr iawn.

Cofiwn am John fel gŵr bonheddig a chwrtais, ac yn bresenoldeb ffyddlon a thawel yn y Priordy bob dydd Sul.

Yn enedigol o Aberdâr, tyfodd i fyny ym Mryste wedi i'r teulu symud yno pan oedd John yn fachgen bach. Cymerodd ddiddordeb mawr yng ngwaith yr eglwys pan oedd yn ifanc iawn a bu'n weithgar yn yr eglwys Fethodistaidd leol gan arwian oedfaon a phregethu o bryd i'w gilydd, ac ystyried camu i'r weinidogaeth ar un adeg. Er i lwybr bywyd ei arwain at yrfa ddisglair iawn yn y Gwasaneth Sifil, ni phallodd ei ddiddordeb na'i ymrwymiad i Achos Iesu Grist.

Bu yntau ac Eluned yn aelodau ffyddlon mewn nifer o Gapeli Cymraeg, Efail Isaf; Bethel, Sgeti, Abertawe; Siloam, Ponatargothi cyn ymaelodi yn Y Priordy yn 2004.

Roedd John yn wrandawr astud ac yn gwerthfawrogi pregeth yn fawr. Ein braint oedd ei gael yn aelod yn ein plith, a rhown ddiolch i Dduw am ei fywyd ac am y fraint o gael cyd-gerdded rhan o'r daith yn ei gwmni.

Daeth cynulleidfa niferus i'r Priordy brynhawn lau Cablyd, 29 Mawrth i'w gynhebrwng, cyn ymlwybro'n dawel wedyn i Amlosgfa Parc Gwyn.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Eluned, a fu mor ofalus ohono dros gyfnod ei waeledd. Cofiwn hefyd am Sonia, ei chwaer, a'r cysylltiadau teuluol eraill. '

'Da was, da a ffyddlon, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.'

Ein Gweinidog



EIN braint oedd bod yn dystion yn ystod y Cwrdd Plant a Phobl Ifainc ar Sul y Blodau i fedydd Deio Cai, mab Heledd a Gethin Tomos, Felin-wen a brawd Myfi Blodwen a'r diweddar Cai. Croeso mawr i Deio Cai a phob bendith ar y teulu.

Da oedd gweld cymaint yn y Priordy ar gyfer recordio rhaglenni yn y gyfres *Dechrau Canu Dechrau Canmol* (DCDC). Bu rhai yn y Priordy eisoes ar DCDC yn ddiweddar Gwelwyd Beti-Wyn a Sara Llwyd ar y rhaglen o Gapel Newydd, Llandeilo a Heledd Tomos ar raglen Sul y Mamau yn sôn am ei phrofiad hi a'i gŵr Gethin o ddod dros anawsterau wedi colli Cai loan a'r cymorth a gawsant drwy gymdeithas *Aching Arms*. Roedd Elin Llwyd yn rhan o'r grŵp canu yn Orendy Margam. Hi hefyd, gyda llaw, yw un o gyflwynwyr y gyfres *Band Cymru 2018* ar S4C.



Bu Beti-Wyn ar *Bwrw Golwg* ar *Radio Cymru'n* trafod Dydd Gweddi Byd-eang y Chwirydd neu Ddydd Gweddi Byd-eang, gan hepgor 'y chwirydd' yn y teitl, fel sy'n digwydd mewn rhai cylchoedd bellach. Bu hefyd ar *Raglen Aled Hughes* yn trafod Cadeirlan Notre Dame lle mae craciau wedi ymddangos yn yr adeilad.



Llongyfarchiadau i Peter Hughes Griffiths ar gael ei ddyrchafu'n Llywydd Anrhydeddus *Cwlwm* a hynny ym mlwyddyn dathlu'r Papur yn 40 oed. Roedd Peter yn un o'r sylfaenwyr. Dymuniadau da iddo yntau a *Cwlwm* i'r dyfodol. Gwelwyd hefyd ddarn o archif ar *Heno* yn cynnwys Peter pan oedd yn Gadeirydd Cymdeithas Bêl-droed Ysgolion Cymru, yn sôn amdano'n cwrdd â'r Ryan Giggs ifanc sydd bellach yn Rheolwr Tîm Pêl-droed Cenedlaethol Cymru. Ac mae llais arbennig Meinir Lloyd gyda'i *Watshia Di dy Hun* yn dal i atseinio ar S4C mewn mwy nag un cyd-destun!



Lasiwyd *Cennad*, cyfrol newydd Menna Elfyn,,llên-gofiant sy'n rhan o gyfres gan *Gyhoeddiadau Barddas*, yn yr Atom yn ddiweddar a bu eitem am hyn ar *Heno*.



Trysorydd newydd Eiriolaeth Iechyd Meddwl *Eiriol*, y corff sy'n cynnal y rhai sy'n dioddef o iechyd meddwl a'u gofalwyr yn Sir Gâr yw'r Dr Huw Michael. Dymunwn yn dda iddo wrth y gwaith pwysig hwn.

ANFONWN ein cofion cynhesat at y rhai sydd mewn ysbyty neu sydd newydd fod a chael triniaeth, sef Erin Hana, merch Non a Carwyn Edwards, Pumsaint, Wyn Tegryn Evans, Heol Dyfnallt a Thelma Evans, Manhattan. Deallwn hefyd fod Nano Evans, Llandre, wedi cael anffawd gyda'i garddwrn. Dymunwn yn dda iddynt i gyd a phawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn.

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mai i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Tina Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad â Laura a Tim Howells a'r plant, Gwenllian a Harri sy'n aelodau yn ein Hysgol Sul, ar golli mam Laura, sef Esther Rosemary Howells, Sanclêr, ar 8 Mawrth 2018 a hynny ar ôl cystudd hir. Anfonwn ein cofion cynnes at y teulu i gyd yn eu hiraeth a'u galar. Cynrychiolwyd y Priordy yn yr angladd yn Eglwys Dewi Sant Meidrim gan ein Gweinidog.

CWMNI MYRDDIN

yn cyflwyno

DAU HANNER

BRAWD

gan

Nan Lewis ac Eric Jones


Theatr y Lyric Caerfyrddin

Nos Iau a Nos Wener 26 /27 Ebrill 2018 am 7.30

Tocynnau: £12 drwy ☎0845 226 3510



BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R
BLWCH CETRYS A'R BLWCH TOPIAU POTELI PLASTIG YN Y CYNTEDD**

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn a Philip, Margaret Lloyd-Jones, y Parchedig Athro Euros Wyn Jones a'r Parchedig Ieuan Elfryn Jones am y lluniau'r mis hwn





Y SULLIADUR



Ebrill Sul y Pasg	1	<i>Bore P'nawn</i>	Cwrdd Undebol I'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog Cwrdd Undebol i'r Ofalaeth gyda'n Gweinidog yn y Gymuned ym Mancycfelin am 3	Cymun
	8	<i>Bore</i>	Y Parchedig John Gwilym Jones Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig John Gwilym Jones	
	15	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	22	<i>Bore Hwyr</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Yn ymuno â'r Tabernacl am 5 ar gyfer Oedfa a The Amnest	
	29	<i>Bore P'nawn</i>	Ein Gweinidog Te Parti <i>Aching Arms</i> yn y Festri am 4. <i>Manylion y tu mewn.</i>	

Mai	6	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	13	<i>Bore P'nawn</i>	Y Parchedig T Evan Morgan Oedfa Undebol i'r Ofalaeth ym Mancycfelin am 2 gyda'r Parchedig T Evan Morgan	
	20	<i>Bore P'nawn</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog Cwrdd Pregethu Capel Heol Awst am 3 gyda'r Parchedig John Gwilym Jones	
	27	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant								
Ebrill					Mai			
1	8	15	22	29	6	13	20	27
-	-	✓ PIP	CP	✓	✓	✓ PIP	CP	-

Y GYMDEITHAS DDIWYLLIADOL

Nos Lun, 16 Ebrill 2018

Y Festri – 7

ELIN A RICHARD REES

